**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD Y SENEDD**

**YMCHWILIAD I LOBÏO**

**TYSTIOLAETH GAN DOUGLAS BAIN CBE TD, COMISIYNYDD SAFONAU'R SENEDD**

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle a roddwyd i mi gyfrannu at ei ymchwiliad i lobïo. Fodd bynnag, gan nad yw'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori yn berthnasol i'm rôl fel Comisiynydd Safonau, a'u bod yn gysylltiedig â phynciau nad oes gennyf unrhyw wybodaeth amdanynt, rwyf am gyfyngu fy ymateb i rai sylwadau mwy cyffredinol y gobeithiaf y byddant yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Ers sefydlu swydd gyhoeddus y Comisiynydd Safonau yn 2009, ni wnaed yr un gŵyn dderbyniadwy yn erbyn Aelod mewn perthynas â gweithgarwch lobïo.

Mae risg y bydd unrhyw fframwaith rheoleiddio yn fiwrocrataidd ac yn cynnwys unigolion sy'n methu â chydymffurfio â rhyw fân agwedd arno ar gamgymeriad, fel cofnodi gwybodaeth yn hwyr, ond nid yr unigolion hynny sy'n anwybyddu'r fframwaith yn llwyr ac sydd ddim yn cael eu nodi. Gellir lleihau'r risg y bydd unigolion yn anwybyddu unrhyw gynllun newydd drwy gyflwyno trefn sancsiynau briodol; fodd bynnag, ni fyddai hyn yn dileu'r risg yn llwyr.


Os penderfynir rheoleiddio lobïwyr, bydd yn rhaid gwneud diwygiadau cyfatebol i God Ymddygiad yr Aelodau i sicrhau, er enghraifft, fod ymgysylltu â lobïwr sydd heb ei reoleiddio yn achos o ymddwyn yn groes i'r Cod hwnnw.

Y Pierhead
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0300 200 6539
E-bost: Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru
---
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Pierhead
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Tel: 0300 200 6539
E-mail: Standards.Commissioner@senedd.wales
---
We welcome correspondence in both English and Welsh


**STANDARDS CONFIDENTIAL**

Yn achos Owen Patterson yn Nhŷ'r Cyffredin, rwy'n nodi na wnaethpwyd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Safonau Seneddol ynghylch ei ymddygiad. Defnyddiodd y Comisiynydd ei phŵer i ddechrau ymchwiliad ar ôl gweld adroddiadau yn y cyfryngau ar y pryd am yr honiadau bod Mr Patterson wedi ymddwyn yn groes i'r rheolau. Byddai rhoi'r pŵer i Gomisiynydd Safonau'r Senedd ddechrau ymchwiliadau yn cynyddu'r tebygolrwydd o gymryd camau yn erbyn Aelodau sydd, yn ddiarwybod i'r cyhoedd, yn torri unrhyw reolau newydd.



**Douglas Bain CBE TD**

**Y Comisiynydd Safonau/Standards Commissioner 20 Mehefin 2022**



**Douglas Bain CBE TD**

**Y Comisiynydd Safonau/Standards Commissioner 16 June 2022**